**Dyddiad cyhoeddi:** Ionawr 2013

**Gwybodaeth i'r cyhoedd**

NHS
National Institute for Health and Clinical Excellence

NHS
National Institute for Health and Clinical Excellence

# Vinflunine ar gyfer canser celloedd trawsnewidiol datblygedig neu fetastatig a gafodd ei drin yn flaenorol o'r llwybr wrotheliol

Mae'r ddogfen hon yn egluro pryd y dylid defnyddio **vinflunine** i drin pobl sydd â math o ganser o'r enw canser celloedd trawsnewidiol metastatig sy'n effeithio ar y bledren, yr arennau neu'r wretrau (a elwir gyda'i gilydd yn llwybr wrotheliol). Mae'r ddogfen yn cwmpasu canser y llwybr wrotheliol sy'n ddatblygedig neu'n fetastatig ac sydd eisoes wedi'i drin â chyffuriau canser sy'n cynnwys platinwm. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol). Cafodd ei ysgrifennu ar gyfer pobl â chanser y llwybr wrotheliol ond gall hefyd fod yn ddefnyddiol i'w teuluoedd neu ofalwyr neu unrhyw un sydd â diddordeb yn y cyflwr.

Nid yw'n disgrifio canser y llwybr wrotheliol na'r triniaethau'n fanwl - dylai eich clinigwyr drafod y rhain gyda chi. Gallwch gael rhagor o wybodaeth gan y sefydliadau a restrir ar dudalen 4.

*Mae sawl triniaeth bosibl ar gyfer canser y llwybr wrotheliol. Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi am yr opsiynau triniaeth sydd ar gael.*

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Nid yw NICE yn argymell vinflunine ar gyfer pobl â chanser celloedd trawsnewidiol datblygedig neu fetastatig y llwybr wrotheliol sydd wedi'i drin yn flaenorol â chyffuriau canser sy'n cynnwys platinwm.

### Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Mae NICE yn edrych ar ba mor dda y mae triniaethau yn gweithio yn ogystal â pha mor dda y maent yn gweithio mewn perthynas â'u cost i'r GIG. Mae NICE yn rhoi ystyriaeth arbennig i driniaethau a all ymestyn bywydau pobl sy'n agosáu at ddiwedd eu hoes. Nid yw vinflunine yn rhoi digon o fudd i gleifion i gyfiawnhau ei gost uchel ac nid yw'n gymwys ar gyfer ystyriaeth arbennig, felly ni wnaeth NICE ei argymell.

## Canser celloedd trawsnewidiol y llwybr wrotheliol

Mae'r llwybr wrotheliol yn cynnwys y bledren, yr arennau a'r wretrau (tiwbiau sy'n cario wrin o'r arennau i'r bledren). Mae canserau celloedd trawsnewidiol yn dechrau yn leinin y llwybr wrotheliol. Mae gan tua naw o bob 10 o bobl â chanser y llwybr wrotheliol yn y DU y math celloedd trawsnewidiol.

Mae canser y llwybr wrotheliol yn ddatblygedig neu'n fetastatig os yw wedi lledaenu i'r meinweoedd cyfagos neu rannau eraill o'r corff.

## Vinflunine

Math o gyffur cemotherapi yw vinflunine sy'n amharu ar dwf celloedd canser drwy atal y celloedd rhag rhannu.

## Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Ni ddylid rhagnodi vinfluine ar y GIG fel arfer ar gyfer canser celloedd trawsnewidiol y llwybr wrotheliol sydd wedi'i drin â chyffuriau canser sy'n cynnwys platinwm. Dylai eich meddyg siarad â chi am yr opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael i chi.

Bydd NICE yn penderfynu a fydd yn adolygu'r canllawiau hyn ym mis Tachwedd 2015.

Os ydych eisoes yn cymryd vinflunine ar gyfer canser celloedd trawsnewidiol y llwybr wrotheliol sydd wedi'i drin yn flaenorol â chyffuriau canser sy'n cynnwys platinwm, dylech barhau i'w gymryd nes eich bod chi a'ch clinigwyr yn penderfynu ei bod yn addas rhoi'r gorau i'w gymryd.

## Rhagor o wybodaeth

Gall y sefydliadau isod roi rhagor o wybodaeth a chymorth i bobl sydd â chanser y llwybr wrotheliol. Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

- CancerHelp y DU (gwefan gwybodaeth i gleifion Ymchwil Canser y DU), 0808 800 4040 www.cancerhelp.org.uk
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000 www.macmillan.org.uk
- Sefydliad Canserau mwy Anghyffredin, 0800 334 5551 www.rarercancers.org.uk

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Os ydych yn byw yng Nghymru dylech siarad â Galw Iechyd Cymru i gael gwybodaeth am bwy i gysylltu â nhw.

## NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ar atal, canfod a thrin cyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried y dystiolaeth sydd ar gael am y clefyd a'r triniaethau, barn cleifion a gofalwyr a phrofiadau meddygon, nyrsys a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, ac yn ystyried y costau sydd ynghlwm. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

*I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance*

*Mae'r ddogfen hon a fersiynau eraill o'r canllawiau a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn www.nice.org.uk/guidance/TA272*

*Rydym yn annog y GIG a sefydliadau gwirfoddol i ddefnyddio testun o'r ddogfen hon yn eu gwybodaeth eu hunain am ganser y llwybr wrotheliol.*

**National Institute for Health and Clinical Excellence**
Level 1A, City Tower, Piccadilly Plaza, Manchester M1 4BT; www.nice.org.uk

N2895  January 2013

ISBN 978-1-4731-0075-6

© National Institute for Health and Clinical Excellence. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.